Addysg camddefnyddio sylweddau

Arfarniad o roi'r arweiniad 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' yng Nghylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith mewn ysgolion a'i effaith ynddynt

Mehefin 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddywr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (o Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir defnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cefndir 3

Prif ganfyddiadau 5

Argymhellion 7

Effaith gyffredinol Cylchlythyr 17/02 ar raglenni camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion: nodweddion da a diffygion 9

Cynllunio a pholisi 13

Hyfforddiant 16

Cyllid 18

Rôl darparwyr allanol a gweithio aml-asiantaethol 19

Trefniadaeth a chyflwyno'r cwricwlwm 23

Rheoli, monitro ac arfarnu addysg camddefnyddio sylweddau 26

Adnoddau 28

Atodiad

Rhestr cyfeiriadau

Cyflwyniad

1 Yn ei chylch gwaith blynyddol i Estyn ar gyfer 2006-2007 gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn arfarnu rhoi'r arweiniad ar 'Gamddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' yng Nghylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith mewn ysgolion, a'i effaith ynddynt. Mae'r Cylchlythyr hwn yn ystyried 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth[1]', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2000. Mae Cylchlythyr 17/02 wedi'i gyfeirio at ysgolion a sefydliadau yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol sy'n cynnig cyfleoedd addysgol i blant a phobl ifanc o dan 18 oed.

2 Mae Cylchlythyr 17/02 yn amlygu'r sylweddau y mae eu defnydd yn effeithio ar sut mae pobl yn meddwl, yn teimlo neu yn ymddwyn. Mae'n delio â phob math o gamddefnyddio sylweddau, boed yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys sylweddau peryglus fel tybaco, alcohol, sylweddau anweddol a chyffuriau anghyfreithlon, ynghyd â meddyginiaethau y mae modd eu prynu dros y cownter.

3 Mae addysg camddefnyddio sylweddau yn cael ei darparu mewn ysgolion:

- i alluogi i blant a phobl ifanc ymwrthod â chamddefnyddio sylweddau er mwyn cyflawni eu llawn botensial mewn cymdeithas;
- i alluogi i blant a phobl ifanc wneud penderfyniadau cyfrifol a mwy gwybodus am eu bywydau;
- oherwydd y pryder cyffredin bod yr hyn sy'n dechrau fel defnydd achlysurol o dybaco, alcohol neu ganabis yn gallu arwain at niwed yn uniongyrchol a gall hefyd roi'r unigolyn ar lwybr sy'n arwain at ddibyniaeth a niwed hirdymor; ac
- oherwydd bod hyn yn achos o bryder cyhoeddus gan y gall niwed gael ei wneud i'r defnyddwyr, i'w teuluoedd ac i'w ffrindiau, ac i'r gymuned yn gyffredinol.

4 Mae'r adroddiad yn tynnu ar gyfres o ymweliadau, cyfarfodydd ac ymchwil gan arolygwyr, gan gynnwys:

- astudiaeth o ymchwil a deddfwriaeth diweddar fel Deddf Plant 2004;
- dadansoddiad o ymatebion i holiadur oddi wrth 56 o'r 75 o ysgolion y cysylltwyd â nhw, a oedd yn cynnwys ymatebion gan athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac annibynnol;
- ymweliadau â 30 o ysgolion eraill ar gyfer cyfarfodydd ag athrawon, penaethiaid a disgyblion mewn ystod o ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysgol eraill ledled Cymru;
- ymweliad ag Athrofa Addysg Uwch Abertawe i weld sesiwn hyfforddi ar gyfer Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu (SCYion);

- ymweliad â Charchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr i weld sesiwn addysg cyffuriau i droseddwyr ifanc;

- cyfarfod â holl ymgynghorwyr Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yr awdurdodau addysg lleol (AALlau) a chynrychiolwyr Cydlynwyr Ysgolion Iach;

- cyfarfodydd â chydlynwyr o'r Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (TGGSau); Swyddog Partneriaeth Diogelwch Cymunedol; Swyddog Byrddau Iechyd Lleol Cenedlaethol (BILlC)/Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd; Cydlynydd Rhaglen Ysgolion Genedlaethol yr Heddlu; Cydlynydd Rhaglen Ysgolion Rhanbarth Gogledd Cymru yr Heddlu; Cynghorydd Cyffuriau – Canolfan Gyffuriau Abertawe;

- archwilio polisïau ysgol a chynlluniau gwaith; a

- thrafodaethau â grwpiau o blant a phobl ifanc, gan gynnwys ymatebion i gwestiynau a osodwyd ar wefan 'Draig Ffynci' Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5 Mae'r rhifau a ddefnyddir ar gyfer cyfeiriadau yn nhestun yr adroddiad hwn yn cyfeirio at restr o gyhoeddiadau yn yr atodiad.

Cefndir

6 Mae rhieni sy'n defnyddio cyffuriau yn gwneud niwed difrifol i'w plant beth bynnag yw eu hoedran, o'u cenhedlu hyd nes eu bod yn oedolion. Yn ei adroddiad ar 'Pathways to Problems' [2] mae'r Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau yn datgan:

'Gall problemau â chamddefnyddio sylweddau ymddangos ar unwaith tra bod eraill yn cymryd blynyddoedd i ddatblygu. Mae rhai problemau yn ganlyniad uniongyrchol y cyffur ei hun. Mae eraill yn deillio o'r modd y mae'r cyffur yn cael ei gymryd – er enghraifft drwy gyfrwng nodwyddau – neu drwy'r ffordd o fyw y gall arwain ato – fel ymddygiad troseddol a phuteindra. Mae'n glir iawn nad oes gan y rhan fwyaf o bobl ifanc lawer neu ddim syniad o'r risgiau personol y gallent fod yn eu cymryd wrth ddechrau defnyddio cyffur penodol.'

7 Mae camddefnyddio sylweddau fel cyffuriau ac alcohol yn broblem enfawr ledled y DU. Yn achos pobl ifanc sy'n 15-16 mlwydd oed, mae enw'r DU gyda'r gwaethaf yn Ewrop. Heddiw, mae llawer mwy o bobl ifanc, yn enwedig menywod ifanc, yn yfed alcohol ac yn goryfed mewn pyliau. Mae goryfed mewn pyliau'n golygu yfed llawer o alcohol mewn cyfnod byr.

8 Mae gan y DU hefyd un o'r cyfraddau uchaf o enedigaethau gan ferched yn eu harddegau yn Ewrop, gyda chyfartaledd o 26 o enedigaethau byw i bob 1,000 o fenywod rhwng 15-19 oed. Yng Nghymru, mae'r ffigur yn uwch fyth. Mae cyswllt rhwng pobl ifanc yn yfed gormod o alcohol a chael cyfathrach rywiol anniogel a heb amddiffyniad. Gall hyn arwain at feichiogi'n anfwriadol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

9 Mae polisi ar addysg camddefnyddio sylweddau yn aml wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod addysg cyffuriau bob amser yn effeithiol. Mae ymchwil diweddar (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2006), fodd bynnag, wedi bwrw amheuaeth ar y rhagdybiaeth hon. Yn Pathways to Problems[2] mae Cyngor Ymgynghorol y DU ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD) yn datgan:

'Nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc oedran ysgol yn smygu tybaco, yn yfed alcohol nac yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Mae gan lawer o'r rhai sy'n dechrau cymryd cyffuriau pan fyddant yn ifanc gefndir neu amgylchiadau rhieiniol neu deuluol sy'n eu rhoi mewn mwy o risg neu sy'n dangos patrymau ymddygiad fel chwarae triwant neu droseddu sydd â chyswllt cryf â defnyddio tybaco, alcohol neu gyffuriau eraill. Pan fo'r amgylchiadau hyn wedi'u cyfuno ag amgylchedd lle mae cyffuriau ar gael yn hawdd, efallai nad yw'n realistig disgwyl y bydd nifer fechan o ymarferion yn yr ystafell ddosbarth yn rhwystr. Mae angen i'r disgwyliadau sy'n cael eu rhoi ar raglenni camddefnyddio sylweddau yn yr ysgol fod yn fwy realistig.'

10 Mae adroddiad ACMD[2] yn argymell ailasesu rôl ysgolion mewn rhaglenni addysg camddefnyddio cyffuriau. Mae'n datgan:

'Mae gan ysgolion gyfrifoldeb clir i roi gwybodaeth gywir, gredadwy a chyson i blant a phobl ifanc am beryglon tybaco, alcohol a chyffuriau eraill – gan gynnwys sylweddau anweddol. Yn ogystal, mae angen i ysgolion gynnal amgylchedd cefnogol i'w holl ddisgyblion, gan gydnabod ac ymateb i anghenion y rheiny y mae eu problemau ymddwyn neu eu cefndir teuluol yn peri risg arbennig iddynt o ddefnyddio cyffuriau peryglus.'

11 Mae Deddf Plant 2004 wedi rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i sefydlu Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (BLlDP). Eu rôl yw cytuno sut bydd sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Y rhagdyb yw bod rhaid i asiantaethau allweddol weithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Ffocws allweddol o'r gwaith yw addysg camddefnyddio sylweddau.

12 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y mae Cylchlythyr 17/02 wedi bod yn effeithiol wrth roi arweiniad ar addysg camddefnyddio sylweddau i ysgolion ac asiantaethau allanol er mwyn diogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae astudiaethau achos wedi'u cynnwys, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Prif ganfyddiadau

13 Mae arwyddion y gallai fod Cylchlythyr 17/02 yn cael effaith gadarnhaol mewn ysgolion cynradd wrth helpu i ohirio'r oedran pan fydd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn dechrau smygu ac arbrofi â sylweddau peryglus eraill.

14 Mae effaith y Cylchlythyr mewn ysgolion uwchradd yn llai sicr. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o rai o effeithiau corfforol a chanlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau wedi gwella ers cyflwyno'r Cylchlythyr. Y rheswm am hyn yn bennaf yw bod y mwyafrif o ysgolion wedi mabwysiadu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu'. Dywed disgyblion fod pwyslais y rhaglen hon ar sefyllfaoedd bywyd go iawn yn well ganddynt na'r math o addysgu sy'n dibynnu ar lenwi taflenni gwaith sydd efallai wedi dyddio. Ar y llaw arall, mae tystiolaeth sylweddol fod rhaglenni wedi'u harwain gan athrawon, lle bo hyfforddiant a chefnogaeth priodol yn cael eu rhoi, yn gallu bod yn fwy effeithiol na'r rhai sy'n cael eu cyflwyno'n llwyr gan gyfranwyr allanol.

15 Nid yw'r Cylchlythyr wedi bod yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar agweddau a gwerthoedd pobl ifanc i'r graddau nad yw wedi atal lleiafswm sylweddol rhag parhau i smygu neu yfed alcohol yn ormodol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon fel canabis.

16 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'r mwyafrif o ysgolion cynradd bolisi ar addysg camddefnyddio sylweddau. Mae Cylchlythyr 17/02 wedi bod yn ddefnyddiol wrth helpu'r ysgolion hyn i lunio neu i ddiwygio polisïau a rhaglenni gwaith fel eu bod yn cydymffurfio ag adran arfer dda'r Cylchlythyr. Y math o addysg sy'n gweithio orau yw un sydd wedi'i hymgorffori ar draws yr addysg bersonol a chymdeithasol yng nghwricwlwm yr ysgol yn hytrach nag addysg sy'n dibynnu ar ddigwyddiadau unigol.

17 Nid yw'r Cylchlythyr yn rhoi digon o arweiniad i ysgolion ar sut i ddatblygu dull aml-asiantaethol effeithiol yn eu rhaglenni addysgu na sut i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a chymunedau lleol i helpu i atal rhai o achosion sylfaenol camddefnyddio sylweddau.

18 Nid yw'r Cylchlythyr wedi cael ei ddiweddaru ers ei gyhoeddi i roi arweiniad i ysgolion am newidiadau yn y gyfraith sy'n effeithio ar eu cyfrifoldebau.

19 Mae agweddau eraill lle nad yw'r Cylchlythyr wedi cael llawer o effaith yn cynnwys:

- hyfforddiant i bob athro;
- sut mae ysgolion yn cofnodi ac yn rheoli enghreifftiau o ddefnyddio sylweddau'n anghyfreithlon fel smygu, yfed a defnyddio sylweddau anweddol; ac
- yr ystod o adnoddau a deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys plant y gofelir amdanynt a phlant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol.

20 Nid yw asiantaethau allanol bob amser yn gwrando digon ar farnau athrawon, plant a phobl ifanc wrth gynllunio sut i helpu i oresgyn problemau â chamddefnyddio sylweddau. Ychydig iawn o raglenni sy'n cynnwys disgyblion neu rieni wrth gynllunio beth fydd yn cael ei gynnwys ac mae hyn yn golygu eu bod yn llai tebygol o gymryd perchnogaeth bersonol o'r materion.

21 Mae rhai mentrau lleol da iawn fel rhaglen 'Sort Orau' yn Rhondda Cynon Taf a ddatblygwyd gan y Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (TGGS), yn delio â holl ofynion Cylchlythyr 17/02. Dyma fodel o arfer dda mewn addysg camddefnyddio sylweddau aml-asiantaethol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

22 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn arfarnu effeithiolrwydd eu rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau fel rhan o'r arfarniad cyffredinol o'u rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gwendidau mewn monitro ac arfarnu yn golygu bod bylchau yn y rhaglenni addysg am atal camddefnyddio sylweddau.

23 Mae tystiolaeth arolygon yn dangos nad yw plant a phobl ifanc yn meddu ar y wybodaeth lawn am yr holl risgiau personol maen nhw'n eu cymryd wrth ddefnyddio cyffur penodol. Mae hyn yn arbennig o wir am ganlyniadau corfforol, emosiynol a chanlyniadau iechyd meddwl yn sgil cymryd sylweddau anghyfreithlon neu gyfreithlon, ac am y canlyniadau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad treisgar, cyfathrach rywiol anniogel, a niwed i blentyn heb ei eni oherwydd camddefnyddio sylweddau.

24 Mae dau fath gwahanol o addysg camddefnyddio sylweddau'n cael eu cynnig: y rhaglen aml-asiantaethol sydd wedi'i hymgorffori yn addysg bersonol a chymdeithasol ysgol, sy'n rhoi gwybod i ddisgyblion am y risgiau a'r materion gwaelodol; a'r rhaglenni 'lleihau niwed' mwy ymyraethol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol. Mewn rhai rhannau o Gymru mae'r ddau'n cael eu defnyddio'n briodol ond mae amlder a dwysedd y cyflwyno'n amrywio.

25 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r rhan fwyaf o'i gwaith addysg camddefnyddio sylweddau yn uniongyrchol drwy ei 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu.' Mae'r cyllid hwn yn osgoi'r Strwythur Cynllunio a Chomisiynu Camddefnyddio Sylweddau. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi gwaith y 22 AALl ac is-grwpiau addysg a hyfforddiant y TGGSau o dan anfantais. Mae'n golygu nad oes ffordd hawdd iddynt ddatblygu eu mentrau eu hunain i gefnogi gwaith aml-asiantaethol ac wrth fonitro ac arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion, yn unol â gofynion Cylchlythyr 17/02.

26 Mae diffyg meddwl cysylltiol yn genedlaethol ac yn lleol o ran cynllunio, cydlynu, cyllido, addysgu, monitro ac arfarnu yn golygu bod rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion yn llai effeithiol nag y gallent fod.

Argymhellion

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ddiwygio Cylchlythyr 17/02 Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc, i gynnig arweiniad gwell a mwy diweddar i ysgolion ac eraill ar sut i ddatblygu dull aml-asiantaethol, integredig llawn i helpu i atal y camddefnydd ar sylweddau gan blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed;

A2 ehangu ffocws y Cylchlythyr i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 oed ac i adlewyrchu newidiadau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;

A3 sefydlu Grŵp Cyfathrebu Cenedlaethol i Gymru ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau i gynnig strategaeth a fframwaith cydlynol ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc lle bynnag y maen nhw'n cael eu haddysg;

A4 adolygu gwaith Fframwaith Cymru y Grŵp Cyfathrebu Cenedlaethol ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau yn rheolaidd er mwyn comisiynu gwaith newydd, adolygu rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, a hyrwyddo arfer dda, goruchwylio, cydlynu a chyfarwyddo gwaith yr holl gyrff sy'n gysylltiedig â chynllunio addysg camddefnyddio sylweddau;

A5 gwella gwaith is-grwpiau addysg a hyfforddiant y timau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau drwy roi cyllid pwrpasol i'w caniatáu nhw i gyflawni eu rôl yn unol â gofynion Cylchlythyr 17/02;

A6 gweithio gydag awdurdodau addysg lleol i roi hyfforddiant gwell i staff, gan gynnwys hyfforddiant achrededig ar addysg camddefnyddio sylweddau i oedolion o asiantaethau allanol sy'n gweithio mewn ysgolion; a

A7 gofyn bod sefydliadau hyfforddi athrawon yn cynnig cymhwyster cychwynnol mewn addysg bersonol a chymdeithasol i athrawon dan hyfforddiant, sy'n eu hyfforddi i addysgu sgiliau bywyd, gan gynnwys addysg camddefnyddio sylweddau.

Mae angen i AALlau:

A8 gynnig mwy o hyfforddiant i athrawon i'w helpu nhw i gynllunio, addysgu, monitro ac arfarnu rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau;

A9 rhoi gwybodaeth well i ysgolion am adnoddau priodol ac asiantaethau addas sy'n gallu cefnogi'r ystod gyfan o addysg camddefnyddio sylweddau;

A10 gweithio'n agosach gydag ysgolion a lleoliadau fel unedau cyfeirio disgyblion, i gynllunio rhaglenni sy'n delio ag anghenion penodol plant a phobl ifanc mwy agored i niwed fel y rhai y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol; a

A11 datblygu systemau cadarn i fonitro ac adrodd am enghreifftiau o gamddefnyddio sylweddau mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Mae angen i ysgolion:

A12 gael polisi ar addysg camddefnyddio sylweddau;

A13 cynllunio rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau, i ystyried barn plant a phobl ifanc yn well a chynnwys ystod ehangach o asiantaethau allanol;

A14 sicrhau bod athrawon yn cymryd rôl fwy gweithgar wrth gefnogi'r dysgu pan fydd asiantaethau allanol yn cymryd yr awenau mewn cyflwyno gwersi;

A15 monitro ac arfarnu rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau; a

A16 chynnal amgylchedd cefnogol i bob disgybl, gan barhau i fod yn ymatebol i anghenion y disgyblion hynny y gallai eu problemau ymddygiadol penodol neu eu cefndiroedd teuluol eu gosod mewn perygl penodol o ddefnyddio sylweddau peryglus.

Effaith gyffredinol Cylchlythyr 17/02 ar raglenni camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion: nodweddion da a diffygion

Canlyniadau cadarnhaol Cylchlythyr 17/02

27 Mae ychydig o dystiolaeth, mewn ysgolion cynradd, bod arweiniad y Cylchlythyr yn helpu i ohirio'r oedran pan fydd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn dechrau smygu ac arbrofi â sylweddau peryglus eraill.

28 Mae'r effaith ar addysgu a dysgu mewn ysgolion uwchradd wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am rai o effeithiau corfforol a chanlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau. Mae disgyblion hŷn ym Mlwyddyn 11 ac uwch ar hyn o bryd yn dweud bod disgyblion iau, ers cael gwersi ar sail argymhellion y Cylchlythyr, bellach yn gwybod llawer mwy am effeithiau a risgiau camddefnyddio sylweddau nag yr oedden nhw ynghynt.

29 Mae wedi gwella llawer o agweddau ar bolisi a chynllunio mewn ysgolion ac AALlau ar gyfer cyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc.

30 Mae rhai agweddau ar gydlynu gwaith ysgolion ar addysg camddefnyddio sylweddau wedi gwella. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rôl yn cael ei rhoi i aelod hyfforddedig, medrus o staff, sef cydlynydd addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol fel arfer.

31 Mae'r Cylchlythyr wedi bod yn ddylanwadol wrth annog y mwyafrif o ysgolion i fabwysiadu rhaglenni addysg sy'n defnyddio dull sgiliau bywyd drwy ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau, gwrthsefyll pwysau gan gyfoedion, a chymryd cyfrifoldeb. Dywedodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg Estyn ei bod yn well ganddynt y gwersi a oedd yn seiliedig ar sefyllfaoedd bywyd go iawn fel y rhai a ddarparwyd gan SCYion yr Heddlu na'r rhai a oedd yn dibynnu'n helaeth ar lenwi taflenni gwaith niferus a defnyddio adnoddau a oedd wedi dyddio.

32 Yn ôl y disgyblion a gafodd eu cyfweld, mae'r Cylchlythyr wedi cael yr effaith fwyaf lle mae'r rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau yn cael ei haddysgu ar draws y flwyddyn ysgol mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â'i haddysgu mewn gwersi eraill fel gwyddoniaeth, addysg grefyddol a drama. Roedd gwersi unigol neu ddyddiau cyfan a dreuliwyd ar y pwnc yn llai llwyddiannus.

33 Mae disgyblion yn rhoi'r gwerth mwyaf ar addysg camddefnyddio sylweddau pan fydd y gwersi'n cael eu haddysgu gan dîm bychan, hyfforddedig o athrawon sy'n cael eu cefnogi gan ystod eang o asiantaethau lle bo'n briodol. Gall yr asiantaethau hyn gynnwys yr heddlu, rhaglen y fenter 'ysgolion iach', cyrff gwirfoddol ac elusennol, grwpiau cefnogi cyfoedion, grwpiau drama, a sefydliadau cymunedol eraill.

34 Mae'r heddlu wedi gwneud defnydd da o'r Cylchlythyr i gynllunio Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu. Mae'r rhaglen hon yn cael ei haddysgu mewn 97% o ysgolion a sefydliadau addysg eraill ac mae'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dealltwriaeth gyson a pherthnasol o effeithiau a risgiau camddefnyddio sylweddau. Mae'n cael ei hymestyn i unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau troseddwyr ifanc ar brawf o fis Ionawr 2007 ymlaen.

35 Mae'r egwyddor o gynnwys pobl ifanc i gyflwyno rhaglen i roi gwybod i bobl eraill o'r un oedran am effeithiau a risgiau smygu wedi cael ei defnyddio'n dda gan Brifysgolion Caerdydd a Bryste wrth gynnal y rhaglenni gwrth-smygu 'ASSIST' peilot mewn ysgolion uwchradd. Mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus wrth berswadio bechgyn i beidio â smygu. Mae 'ASSIST' ar gael i bob ysgol o fis Ebrill 2007 ymlaen drwy'r Byrddau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

36 Mae'r Cylchlythyr hefyd wedi cael ei ddefnyddio mewn rhai rhaglenni hyfforddi partneriaethau aml-asiantaethol da iawn sy'n seiliedig ar anghenion lleol. Un enghraifft yn Rhondda Cynon Taf yw gwaith y tîm 'Sort Orau', a'i nod yw sicrhau bod negeseuon cyson am gamddefnyddio sylweddau'n cael eu rhoi i bob plentyn a pherson ifanc. Mae'r tîm 'Sort Orau' hefyd yn hyfforddi ac yn addysgu mewn tîm gydag athrawon a heddweision. Mae gan y dull hwn y fantais o ganiatáu i dîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau yr awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro, arfarnu ac adrodd am effeithiolrwydd y rhaglenni sy'n cael eu haddysgu.

37 Mae'r Cylchlythyr hefyd wedi cael ei ddefnyddio mewn modd dychmygus i gynnal prosiectau peilot mewn rhai awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglenni ymyrraeth deuluol. Cafodd rhaglenni aml-asiantaethol fel 'On Track' ym mlaenau Cwm Rhondda Fach a 'Chryfhau Teuluoedd' yn nwyrain Caerdydd eu cynllunio i wella medrau magu plant, i annog bywyd teuluol sefydlog ac i hyrwyddo patrymau rhieni da o ymddwyn ymysg teuluoedd difreintiedig ac agored i niwed. Mae'r rhaglenni hyn yn ddull o atal rhywfaint o achosion sylfaenol camddefnyddio sylweddau sy'n cael eu galw'n aml yn 'niwed cudd.' 'Niwed cudd' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio lle bo'r plant a'r bobl ifanc yn wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu hamlygu i aelodau o'r teulu sydd eisoes yn camddefnyddio sylweddau.

Diffygion y Cylchlythyr

38 Mae effaith y Cylchlythyr mewn ysgolion uwchradd yn llai amlwg wrth ddylanwadu ar agweddau a gwerthoedd pobl ifanc mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Yn yr arolwg hwn mae bron i bob disgybl wrth adael ysgolion cynradd ar ddiwedd blwyddyn 6 yn dweud na fyddent byth yn dechrau camddefnyddio sylweddau. Mae ymchwil diweddar[2] yn y Deyrnas Unedig, fodd bynnag, yn dangos bod 20-25% ohonynt yn smygu'n rheolaidd erbyn iddynt fod yn 15 mlwydd oed, gyda mwy o ferched na bechgyn yn smygu. Hefyd, mae tua 40-50% o'r rhai sy'n 15 mlwydd oed yn yfed alcohol o leiaf ddwywaith yr wythnos, gyda goryfed mewn pyliau'n dod yn fwyfwy cyffredin. Mae 20-25% o'r grŵp oedran hwn hefyd yn defnyddio cyffuriau eraill – canabis yn bennaf – o leiaf unwaith yr wythnos.

39 Nid yw'r Cylchlythyr yn cyfrif yn ddigonol am, nac yn rhoi digon o arweiniad i ysgolion a lleoliadau addysg eraill, am farn plant a phobl ifanc o ystod o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys plant y gofelir amdanynt a'r plant hynny sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol.

40 Nid yw'r Cylchlythyr yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd cynnig ABCh i athrawon dan hyfforddiant fel pwnc arbenigol. Yn gyffredinol, nid oes gan y rhan fwyaf o

athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ddigon o hyder ac arbenigedd yn y maes hwn ac mae hyn yn rhwystro effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu.

41 Prin fu effaith y Cylchlythyr wrth sicrhau bod athrawon ac asiantaethau allanol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ac i gyflwyno gwersi. Mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd sydd wedi mabwysiadu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu', ychydig neu ddim rhan y mae athrawon yn ei chwarae yn y wers. Maen nhw naill ai'n arsylwyr goddefol neu nid ydynt yn bresennol pan fydd gwersi'n cael eu haddysgu gan SCYion yr heddlu. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i athrawon ddatblygu eu harbenigedd proffesiynol eu hunain yn y maes hwn ac i barhau â thema'r wers pan fydd yr heddweision wedi gadael.

42 Nid yw'r pwyslais ar ddatblygu protocolau rhyngasiantaethol wedi cael ei ddatblygu. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ychydig iawn y mae asiantaethau gwahanol yn gwybod am waith ei gilydd. Mae gwendidau hefyd o ran cyfathrebu rhwng ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, clybiau ieuenctid, colegau addysg bellach ac uwch a lleoliadau addysgol eraill wrth gynllunio dulliau ar y cyd o atgyfnerthu negeseuon am addysg camddefnyddio sylweddau.

43 Mae'r gofyniad i gofnodi enghreifftiau o gamddefnyddio sylweddau wedi dyddio ac nid yw'n adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith ers i'r Cylchlythyr gael ei gyhoeddi yn 2002. Mae angen arweiniad gwell ar ysgolion am eu cyfrifoldebau wrth gofnodi a rheoli enghreifftiau o'r defnydd anghyfreithlon o sylweddau gan gynnwys yr ystod lawn o ddigwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau fel smygu, yfed a defnyddio sylweddau anweddol.

44 Mae'r Cylchlythyr hefyd wedi dyddio o ran y wybodaeth y mae'n ei rhoi am gyfrifoldebau ysgol mewn perthynas â:

- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi cael eu cliriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol;
- delio â chyfrinachedd; ac
- wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

45 Nid yw'r Cylchlythyr yn dweud sut y gall deunyddiau a dulliau gael eu haddasu er mwyn bod yn sensitif i arferion diwylliannol a chrefyddol plant a phobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol.

46 Ychydig iawn o effaith y mae'r Cylchlythyr wedi'i chael wrth gefnogi rôl awdurdodau addysg lleol a'r timau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau wrth gynnig cyrsiau hyfforddiant i athrawon, hyrwyddo gweithio aml-asiantaethol ac wrth fonitro ac arfarnu effeithiolrwydd mentrau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o AALlau yn clustnodi cyllid o'r Gronfa Ysgolion Gwell (CYG) ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau yn eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol. Prin yw'r ymwybyddiaeth mewn AALlau am Gronfa Gyfalaf y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (CGGS) ar gyfer datblygu prosiectau sydd wedi'u targedu at anghenion unigolion a grwpiau o bobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion, clybiau ieuenctid, a cholegau er enghraifft.

47 Yn ogystal, nid yw'r Cylchlythyr wedi cael llawer iawn o effaith yn genedlaethol ar ddyrannu cyllid ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau a lledaenu arfer dda. Daw cyllid ar gyfer mentrau, prosiectau ac adnoddau o ystod o ffynonellau a sefydliadau. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu heb ei gydlynu a dyblygu adnoddau.

48 Yn olaf, ni fu unrhyw fonitro canolog o fentrau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o fentrau lleol. Mae rhaglenni monitro ac arfarnu'r ysgolion eu hunain wedi bod yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu bod bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, yn enwedig am ganlyniadau camddefnyddio sylweddau.

Cynllunio a pholisi

49 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gyfarwydd â Chylchlythyr 17/02. Mae tua thri chwarter o ysgolion cynradd o'r farn bod yr arweiniad o gymorth wrth adolygu neu ddatblygu polisi. Mae llawer o ysgolion annibynnol ac arbennig hefyd o'r farn bod y Cylchlythyr yn ddefnyddiol fel cymorth i ddatblygu neu adolygu eu polisïau ar addysg camddefnyddio sylweddau. Yn yr arfer orau, mae'r Cylchlythyr wedi cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r fframwaith ABCh i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau, agweddau a gwerthoedd disgyblion. Mae'r ysgolion hyn hefyd wedi defnyddio arweiniad yr AALl sy'n seiliedig ar y Cylchlythyr.

50 Mewn ysgolion lle mae'r cynllunio ar gyfer ABCh yn dda, mae'r rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau yn rhoi cefnogaeth briodol i athrawon. Er enghraifft, mae plant rhwng pump a saith mlwydd oed yn cael eu haddysgu yn ystod 'Amser Cylch' i ddeall bod rhai meddyginiaethau'n cael eu cymryd i wneud iddynt deimlo'n well, ond bod rhai cyffuriau'n beryglus.

51 Mewn ysgolion lle mae arfer dda, mae athrawon yn datblygu cwricwlwm ar batrwm troellog lle bydd pob agwedd ar y cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei hail-drafod bob blwyddyn i adeiladu ar y dysgu blaenorol. Fel hyn, gallant gymhwyso 10 agwedd y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol i addysg camddefnyddio sylweddau trwy gydol pob cyfnod allweddol.

52 Mae'r argymhelliad yn y Cwricwlwm fod asiantaethau allanol yn cynllunio rhaglenni gwaith gydag ysgolion wedi cael ychydig iawn o effaith. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu', ac i rai, dyma'u hunig gwrs addysg camddefnyddio sylweddau. Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o:

- arbenigedd gweithwyr iechyd proffesiynol fel y Gwasanaeth Nyrsio Iechyd Ysgolion;
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS); a
- chyfeiriadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cynnwys mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau, at asiantaethau allanol.

53 O ganlyniad i wendidau mewn cynllunio, mae bylchau'n parhau yn rhaglenni'r rhan fwyaf o ysgolion ac yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn anaml iawn y mae unrhyw drafodaeth i godi ymwybyddiaeth disgyblion o oblygiadau ystod o sylweddau peryglus i iechyd, yn enwedig problemau iechyd meddwl a'r effaith y gall y rhain ei chael ar yr unigolyn, ei deulu, a'i ffrindiau yn y tymor byr neu'r tymor hir.

54 Mae llawer o ysgolion uwchradd, annibynnol ac arbennig wedi mabwysiadu rhai polisïau a strategaethau addysgu priodol ers cyhoeddi'r Cylchlythyr. Mae hyn yn golygu bod problem fawr mewn llawer o ysgolion mewn perthynas â disgyblion ym Mlwyddyn 11 ac uwch, oherwydd ychydig iawn o addysg camddefnyddio sylweddau y mae'r disgyblion hyn wedi'i chael, os o gwbl. Mae'r disgyblion hyn yn dweud bod disgyblion iau yn llawer mwy gwybodus am beryglon camddefnyddio sylweddau nag

yr oedden nhw, ers i ysgolion roi gwersi ar waith sy'n seiliedig ar argymhellion y Cylchlythyr.

55 Mae angen mwy o wybodaeth ar ysgolion i lunio polisïau, arferion, deunyddiau a dulliau addysgu sy'n briodol i blant, i bobl ifanc ac i deuluoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol.

56 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisïau diogelu plant a chyfrinachedd sy'n effeithio ar ddatgelu achosion o gamddefnyddio sylweddau. Mae'r polisïau hyn yn datgan yn glir na all athrawon gynnig cyfrinachedd diamod i ddisgyblion os ydynt yn datgelu gwybodaeth sy'n achosi pryder. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd bolisi o'r fath. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn gwybod sut byddai gwahanol aelodau o staff neu ymwelwyr yn ymateb i geisiadau am gyfrinachedd. Petai cais yn codi mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n anodd i staff sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd cyson. Mewn rhai achosion, mae disgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd yn ystyried bod polisïau cyfrinachedd yn rhwystr rhag cyfathrebu gan eu bod yn ofni na fydd yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae hyn yn eu hatal rhag siarad gydag aelodau o staff.

57 Mae'r Cylchlythyr yn rhoi arweiniad priodol ar reoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r wybodaeth hon er mwyn ystyried deddfwriaeth fel y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â materion cyfrinachedd ac amddiffyn plant.

58 Mewn bron pob ysgol, mae rhieni yn tueddu i gael gwybod am addysg camddefnyddio sylweddau, yn hytrach na chael eu cynnwys wrth ei chynllunio. Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion cynradd, mae rhieni'n cael gwybod am yr hyn y bydd yn cael ei addysgu i'w plant drwy riant-lywodraethwyr, cymdeithasau rhieni ac athrawon, prosbectws yr ysgol neu lythyron sy'n cael eu hanfon gartref.

59 Lle mae arfer dda mewn ysgolion cynradd, bydd rhieni'n cael eu gwahodd i edrych ar y deunyddiau a fydd yn cael eu dangos i'w plant, ac yn cael eu hannog i drafod y cynnwys a mynegi eu barn. Mewn rhai rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau, fel 'SAFE', bydd disgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion cynradd lleol, ynghyd â rhieni, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod yn yr ysgol uwchradd leol i ddathlu ymwybyddiaeth gynyddol o beryglon camddefnyddio sylweddau a chwblhau'r cwrs SAFE yn llwyddiannus.

60 Ychydig iawn o ysgolion sydd â llywodraethwyr wedi'i henwi sy'n gyfrifol am addysg camddefnyddio sylweddau. Ym mwyafrif ysgolion yr arolwg, mae llywodraethwyr wedi cymeradwyo polisi'r ysgol ar addysgu addysg camddefnyddio sylweddau, ond ychydig iawn o gyswllt arall sydd ganddynt.

61 Yn yr arfer orau, mewn nifer fechan o ysgolion, mae cydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol yn codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr o addysg camddefnyddio sylweddau drwy gyfrwng cyflwyniadau o ddeunyddiau adnoddau a chynlluniau gwersi y gall llywodraethwyr yna'u trafod a rhoi eu sylwadau amdanynt.

62 Ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnwys disgyblion wrth gynllunio beth fydd yn cael ei addysgu mewn perthynas ag addysg camddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, mae

pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael llawer o addysg am gyffuriau, ond nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am alcohol a'i effeithiau yn y tymor byr a'r tymor hir. Fodd bynnag, lle mae arfer dda, gofynnir i ddisgyblion arfarnu eu gwersi drwy holiaduron neu flychau cyfrinachedd. Mae eu barn yn cael ei hystyried pan fydd y rhaglenni'n cael eu diwygio.

63 Mae nifer gynyddol o ysgolion yn awgrymu y bydd mwy o gyfle i ddisgyblion ddweud eu barn am beth sy'n cael ei addysgu mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac am addysg camddefnyddio sylweddau yn benodol, wrth i'r cynghorau ysgol ddatblygu.

Hyfforddiant

64 Mae ysgolion yn ei chael hi'n fwyfwy anodd rhyddhau athrawon ar gyfer hyfforddiant mewn agweddau ar y cwricwlwm nad ydynt yn cael eu harholi, fel cyrsiau addysg bersonol a chymdeithasol, oherwydd bod blaenoriaeth yn dueddol o gael ei rhoi i'r cwricwlwm prif ffrwd.

65 Mewn ymdrech i oresgyn anawsterau rhoi hyfforddiant mewn ABCh ac i oresgyn diffyg hyder athrawon wrth addysgu'r agwedd hon ar y cwricwlwm, mae lleiafrif o ysgolion uwchradd erbyn hyn yn gofyn i staff nodi maes ABCh y byddent yn hyderus i'w addysgu. Drwy barhau i addysgu'r un pwnc/pynciau, mae hyder ac arbenigedd staff yn tyfu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran addysgu sgiliau bywyd fel addysg camddefnyddio sylweddau ac addysg rhyw a pherthynas.

66 Mae swyddogion cyswllt ysgol yr heddlu (SCYion) sy'n cyflwyno 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' yn cynnig hyfforddiant mewn swydd perthnasol a defnyddiol i athrawon profiadol mewn ysgolion a hyfforddiant i athrawon sydd newydd gymhwyso fel rhan o'u rhaglen sefydlu. Mae'r swyddogion hefyd yn rhoi hyfforddiant ar gais i lywodraethwyr ysgol.

67 Mae SCYion yr heddlu yn ymgymryd â chwrs hyfforddi rhan-amser dwy flynedd sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe. Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at gyflwyno Diploma Ôl-raddedig Prifysgol Cymru mewn Addysg.

68 Mae'r prosiect 'Sort Orau' a gynhyrchwyd gan dîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau (TGGS) Rhondda Cynon Taf yn enghraifft dda iawn o'r defnydd effeithlon ar adnoddau wrth hyfforddi athrawon i gyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau fel rhan o ddull aml-asiantaethol. Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o un o brosiectau 'Sort Orau' ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd. Ei enw yw'r prosiect Ymwybyddiaeth Sylweddau i Bawb (SAFE). Mae hwn yn ategu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' ond mae ganddo'r fantais ychwanegol bod athrawon yn chwarae mwy o ran wrth gynllunio a chyflwyno'r gwersi'n weithredol, ochr yn ochr â heddweision.

Astudiaeth achos: Prosiect Ymwybyddiaeth Sylweddau i Bawb (SAFE) Prosiect partneriaeth hyfforddi rhwng athrawon, tîm 'Sort Orau' yr AALl ac SCYion yr Heddlu

Rhoddwyd SAFE ar brawf mewn 24 o ysgolion yn y Rhondda Fawr yn ystod 2005-2006. Mae'r tîm 'Sort Orau' yn hyfforddi ac yn addysgu mewn tîm gydag athrawon a heddweision gan ddatblygu eu gallu a'u hyder i addysgu'n effeithiol am beryglon a chanlyniadau camddefnyddio sylweddau.

Mae SAFE yn brosiect sy'n mabwysiadu dull aml-asiantaethol o gyflwyno rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau yn y sector cynradd ar hyd RhCT. Cafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â 'Sort Orau', sef tîm addysg camddefnyddio sylweddau'r AALl, Heddlu De Cymru drwy Raglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu, y gwasanaeth ymgynghori ysgolion ESIS, a chynrychiolwyr penaethiaid cynradd o RhCT. Mae'r rhaglen yn cyflwyno nifer o faterion diogelwch cymunedol i ddisgyblion. Mae sesiynau'n hybu cyfranogiad disgyblion ynghyd ag annog cyfranogiad gan rieni. Mae cyflwyno'r sesiynau hyn yn cael ei rannu rhwng athrawon a heddweision ac yn cael eu cefnogi gan y tîm 'Sort Orau'. Mae'r rhaglen yn cynnwys wyth gwers. Mae'r gwersi cyntaf ac olaf yn cael eu haddysgu gan yr athro dosbarth, gyda chefnogaeth y tîm 'Sort Orau'. Mae'r chwe gwers arall yn cael eu haddysgu gan swyddogion cyswllt ysgol yr heddlu. Mae'r pynciau sy'n cael eu haddysgu yn cynnwys agweddau at gyffuriau a defnyddio cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon, tybaco, alcohol, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae llyfrau gwaith wedi cael eu cynhyrchu i ddisgyblion ac fe'u cynlluniwyd i roi cyfle i rieni gymryd rhan yn y tasgau cartref.

Ar ddiwedd rhaglen SAFE, mae clystyrau o ysgolion cynradd yn dathlu eu cyflawniad yn yr ysgol gyfun leol a bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwahoddiad i ddod yno. Drwy gynnwys disgyblion cynradd yn yr ysgol uwchradd fel hyn, mae'r dull yn helpu i wella pontio disgyblion o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Mae'r dathliad hefyd yn ymgysylltu rhieni a gofalwyr â'r rhaglen mewn modd cadarnhaol. Mae tîm camddefnyddio sylweddau yr awdurdod yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon a heddweision i gyflawni eu dyletswydd statudol o fonitro, arfarnu ac adrodd i'r TGGC ar effeithiolrwydd y rhaglenni sy'n cael eu haddysgu, yn unol â gofyniad Cylchlythyr 17/02. Yn dilyn arfarniad allanol cadarnhaol, mae'r prosiect hwn bellach ar gael i bob ysgol gynradd yn RhCT.

Cyllid

69 Mae'n anodd i'r rhan fwyaf o awdurdodau addysg lleol gynnig hyfforddiant mewn addysg bersonol a chymdeithasol oherwydd diffyg cyllid. Mae anawsterau o ran cynnig hyfforddiant ABCh i athrawon yn digwydd yn bennaf oherwydd bod AALlau yn tueddu i ddyrannu eu cyfran o arian y Gronfa Ysgolion Gwell i gefnogaeth a gweithgareddau hyfforddi sgiliau sylfaenol yn bennaf.

70 Nid yw'r rhan fwyaf o AALlau a sefydliadau eraill wedi archwilio'n llawn y posibilrwydd o gynnwys gwaith asiantaethau allanol sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfalaf y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (CGGS) wrth drefnu a chyflwyno eu rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau. Mae'r gronfa hon yn cefnogi gwaith gyda phobl ifanc sydd eisoes â phroblemau â chamddefnyddio sylweddau.

71 Gallai'r gronfa hon gael ei defnyddio gan AALlau i gryfhau eu gwaith, er enghraifft, wrth gynnig gwybodaeth 'lleihau niwed' a strategaethau addysg camddefnyddio sylweddau eraill mewn unedau cyfeirio disgyblion, clybiau ieuenctid a lleoliadau addysg eraill.

72 Mae'n bosibl y byddai'r gronfa hon hefyd o ddefnydd i golegau addysg bellach ac uwch wrth ddatblygu eu rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau. Mae cronfa'r CGGS wedi codi i dros £4 miliwn y flwyddyn, a bydd yn parhau i fod ar gael i ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru nes 2009. Yn ddiweddar, ariannodd Uned Allymestyn Symudol Canolfannau Cyffuriau ac Alcohol Powys (CCAP) sy'n rhoi cyngor cyfrinachol ar faterion camddefnyddio sylweddau yn ardaloedd pellennig Powys.

73 Daw arian arall ar gyfer mentrau, prosiectau ac adnoddau addysg camddefnyddio sylweddau o ystod o ffynonellau a mudiadau sy'n cynnwys:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru er enghraifft yn talu am Raglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu a'r Fenter Ysgolion Iach;
- cronfa Cymorth;
- Is-adran Safonau Masnachu Awdurdodau Unedol;
- cyrff gwirfoddol ac elusennol;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- grantiau'r loteri; a
- thimau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau.

74 Nid oes unrhyw gorff cydlynu cenedlaethol i oruchwylio dyrannu'r cyllid er mwyn lledaenu arfer dda ac i atal deunyddiau rhag cael eu dyblygu. Ychydig neu ddim cyllid sy'n weddill i is-grwpiau'r timau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau i ddatblygu eu cyfrifoldebau addysg a hyfforddiant a gweithio gyda theuluoedd a chymunedau. Y rheswm am hyn yw bod adnoddau TGGS yn cael eu defnyddio bron yn gyfan gwbl ar gyfer y gwasanaethau llinell flaen a gwaith adfer.

Rôl darparwyr allanol a gweithio aml-asiantaethol

75 Mae darparwyr allanol yn cynnig safbwynt bywyd go iawn ar beryglon camddefnyddio sylweddau. Mae'r astudiaeth achos isod yn amlinellu gwaith 'Rhaglen Gyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' wrth rybuddio disgyblion am rai o beryglon a chanlyniadau camddefnyddio sylweddau.

Astudiaeth achos: Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu

Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu yn cael ei haddysgu mewn 97% o holl ysgolion Cymru. Yn ystod blwyddyn academaidd 2005-2006, cyflwynodd swyddogion cyswllt ysgol (SCYion) yr heddlu wersi i ychydig o dan hanner miliwn o blant a phobl ifanc mewn 1,609 o ysgolion cynradd a 282 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Datblygwyd y rhaglen yn wreiddiol yn ardal Heddlu Gwent. Yn 2004-2005, cafodd ei chyflwyno ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan SCYion, yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon a chydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae gan y rhaglen dri phrif ffrwd, sef: camddefnyddio cyffuriau a sylweddau; ymddygiad cymdeithasol; a'r gymuned a diogelwch. Mae gan swyddogion cyswllt yr heddlu rôl ddeuol. Mae tua 80% o'u hamser yn cael ei glustnodi i gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu. Mae gweddill eu hamser yn cael ei glustnodi i blismona cefnogol i ysgolion er enghraifft drwy helpu ysgolion i ddelio ag achosion o gamddefnyddio sylweddau.

Oherwydd eu gwybodaeth arbenigol, mae swyddogion cyswllt yr heddlu yn gallu teilwra'r rhaglen yn gyflym i adlewyrchu newidiadau mewn tueddiadau camddefnyddio sylweddau ar lefel leol a chenedlaethol. Mae 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' yn cael arian cyfatebol gan yr heddlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion barch uchel iawn at y rhaglen. Mae'r rhaglen hefyd yn mynd i'r afael â materion penodol yn yr ysgol a'r gymuned fel chwarae triwant, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol, sy'n aml yn cael eu cysylltu â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar brawf i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd mewn unedau cyfeirio disgyblion ac mewn sefydliadau troseddwyr ifanc ar brawf o fis Ionawr 2007.

76 Yn ei chyhoeddiad yn 2006 'Joining Forces – Drugs: Guidance for Police Working with Schools and Colleges'[3], dywed Cymdeithas Prif Swyddogion Yr Heddlu, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

'Yn ddelfrydol, dylai cysylltiad yr heddlu fod yn rhan o 'Gynghrair mewn Addysg' ehangach ysgolion sy'n sefydlu safonau ansawdd gan yr holl gyfranwyr allanol at raglen gyffuriau ysgol. Gall y gynghrair gael ei hyrwyddo gan ymgynghorydd cyffuriau ysgol yr awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod y cyfranwyr allanol yn gyson â rhaglen addysg cyffuriau'r ysgol a'i pholisi ar gyffuriau.'

77 Mae llawer o ysgolion cynradd yn ymestyn ac yn atgyfnerthu eu gwaith mewn ABCh drwy gyfarfodydd rheolaidd â Chydlynwyr y Fenter Ysgolion Iach ac SCYion yr heddlu. Fodd bynnag, ychydig o'r ysgolion hynny a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg sydd wedi gosod targed sy'n gysylltiedig ag addysgu addysg camddefnyddio sylweddau fel rhan o'r cynllun hwn. Un enghraifft o waith y Fenter Ysgolion Iach yw'r prosiect gwrth-smygu 'ASSIST' sy'n cael ei arfarnu'n allanol ar hyn o bryd.

Astudiaeth achos: ASSIST – rhaglen gwrth-smygu sy'n defnyddio cefnogaeth cymheiriaid

Mae ASSIST yn cynnwys pobl ifanc mewn ysgolion wrth roi gwybod i eraill o'r un oedran am beryglon a chanlyniadau smygu. Drwy gyfnod o hyfforddiant, nod y rhaglen yw rhoi'r sgiliau a'r hyder i gefnogwyr cymheiriaid drafod y risgiau sy'n gysylltiedig â smygu a'r manteision o fod yn rhydd rhag mwg. Gwneir hyn drwy sgyrsiau anffurfiol yn hytrach na fel rhan o wers wedi'i haddysgu. Mae arfarniadau cynnar a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Meddygol yn awgrymu bod y rhaglen yn cael rhywfaint o effaith wrth leihau nifer y bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddatblygu'n smygwyr rheolaidd.

78 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o fentrau eraill hefyd i helpu pobl ifanc i beidio â dechrau smygu ac i helpu'r rhai sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys 'Arwyddion Mwg' a'r 'Clwb Bygiau Baco' i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd. Mewn ysgolion uwchradd, gall disgyblion gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Dosbarth Di-fwg a'r rhaglen Pynciau Llosg. Mae deg ysgol uwchradd hefyd wedi cymryd rhan yn y prosiect peilot – Grwpiau Atal Tybaco – i benderfynu beth all gael ei wneud o ran smygu mewn mannau cyhoeddus. Dyma enghraifft dda o waith aml-asiantaethol sy'n cynnwys disgyblion, athrawon, swyddogion hybu iechyd, swyddogion safonau masnach a busnesau lleol. Mae'r wefan www.healtheschools.org.uk yn cynnwys eitemau am faterion tybaco ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

79 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn manteisio ar gynyrchiadau gan gwmnïau Theatr mewn Addysg i ennyn disgyblion i ystyried peryglon go iawn camddefnyddio sylweddau. Mae'r perfformiadau'n cynnig penblethau i'w trafod. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd o'r fath ac yn eu cael yn werthfawr o ran ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r astudiaeth achos ar y dudalen nesaf yn dangos hyn.

Astudiaeth achos: Gwaith Theatr mewn Addysg mewn addysg camddefnyddio sylweddau

Wings to Fly

Fel rhan o 'Raglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' llwyfannwyd drama a aeth i'r afael â materion cyffuriau dadleuol gan ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Glyncoed yng Nglyn Ebwy, Blaenau Gwent. Mae'r ddrama 'Wings to Fly' yn canolbwyntio ar gymeriad merch ifanc o'r enw Penguin, sy'n marw ar ôl llyncu tabled ecstasi mewn clwb nos.

Llwyfannodd dau grŵp o ddisgyblion TGAU y ddrama drwy gydol yr wythnos i godi ymwybyddiaeth o beryglon defnyddio cyffuriau, a oedd wedi'i hanelu at ddisgyblion iau. Mae'r ddrama wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth, os yw pobl ifanc yn cael gwybodaeth am beryglon cyffuriau a chyd-destun cymryd cyffuriau, yna bydd modd iddynt ddod i'w penderfyniadau eu hunain.

Mae'r ddrama'n dangos canlyniadau cymryd cyffuriau a'r effaith ddifrifol ar fywydau pobl. Bu'n rhaid i'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan feddwl am Penguin yn nhermau'r pwysau cymheiriaid arni a'i rhesymau dros gymryd y cyffur. O ganlyniad i hyn, roedd disgyblion yn gofyn cwestiynau am gyffuriau ac yn cael dealltwriaeth well o'r pwysau a'r canlyniadau.

80 Mae gan leiafrif o ysgolion sesiynau galw heibio sydd wedi'u trefnu gan yr ysgol neu'r nyrs gymunedol a meddyg lleol. Yma, gall disgyblion gael cyngor a chefnogaeth ar faterion personol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o sylweddau ynghyd ag arweiniad ar ryw a pherthynas. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn dda am roi gwybodaeth i ddisgyblion am ble allant fynd i gael cefnogaeth os ydynt yn dymuno siarad. Un enghraifft o fudiad cefnogi yw Gwasanaethau Triniaeth ac Addysg Cyffuriau (TEDS) yn ne ddwyrain Cymru.

81 Ychydig iawn o ysgolion sy'n rhoi gwybyod i ddisgyblion am ddulliau eraill o gael gwybodaeth am effeithiau a chanlyniadau defnyddio sylweddau. Mae'n bosibl bod rhai pobl ifanc yn rhy swil neu'n teimlo'n lletchwith wrth ofyn cwestiynau i athrawon neu i bobl eraill sy'n gweithio yn yr ysgol am y materion hyn. Mae 'Talk to Frank' www.talktofrank.com yn wefan annibynnol wedi'i hariannu gan y llywodraeth lle gall pobl ifanc ohebu'n ddienw ar-lein am ystod o sylweddau, gan gynnwys cyffuriau Dosbarth A, yn gwbl gyfrinachol.

82 Mae gan tua hanner yr ysgolion uwchradd bellach weithiwr ieuenctid naill ai amser llawn neu ran-amser yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr oedolion hyn yn cynnig pwyntiau cyswllt defnyddiol o gyngor a chefnogaeth, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio sylweddau a materion rhyw a pherthynas.

83 Yn yr arfer orau, mae gan ysgolion amser dynodedig ar gyfer gwersi addysg bersonol a chymdeithasol naill ai'n wythnosol neu bob pythefnos lle bydd y fframwaith yn cael ei gyflwyno drwy ddull modiwlaidd. Mae llawer o ysgolion wrthi'n datblygu dull cynhwysfawr, aml-asiantaethol o hyd ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau.

84 Er y gall sawl asiantaeth allanol wahanol roi cefnogaeth i ysgolion wrth gyflwyno agweddau ar addysg camddefnyddio sylweddau, mae diffyg cydlyniad cyffredinol ar lefel genedlaethol. Ar y lefel leol, nid yw'r rhan fwyaf o'r TGGSau a'r AALlau yn cymryd digon o ran wrth fonitro neu arfarnu rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, prin yw'r cysylltiadau rhwng y gwahanol asiantaethau i sicrhau bod rhaglen gynhwysfawr, gydlynol o gefnogaeth allanol yn cael ei chyflwyno. Yn gyffredinol, mae diffyg dealltwriaeth ac eglurder mewn ysgolion a rhwng asiantaethau allanol am y rôl y dylai bob un ohonynt ei chwarae.

85 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau addysg lleol wedi llunio canllawiau priodol i asiantaethau ac ymwelwyr mewn ysgolion eu defnyddio. Mae un awdurdod lleol wedi llunio canllawiau manwl sy'n amlinellu dulliau o addysgu a dysgu ac mae'n rhoi rhestrau gwirio i athrawon ddatblygu arfer dda.

Trefniadaeth a chyflwyno'r cwricwlwm

a) addysg camddefnyddio sylweddau sy'n cael ei haddysgu drwy raglenni ABCh ysgolion

86 Mae gan bron pob ysgol athro dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu eu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae llawer o'r cydlynwyr hyn yn cymryd y prif gyfrifoldeb am ddatblygu'r polisi cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw pob cydlynydd yn ymwneud ag addysgu'r gwersi ABCh ac addysg camddefnyddio sylweddau.

87 Mewn ysgolion cynradd, bydd y pennaeth yn aml yn ymgymryd â'r gwaith o gysylltu â gwasanaethau a chefnogaeth allanol a'u cydlynu. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r rôl hon yn cael ei chyflawni gan y cydlynwyr ABCh fel rheol.

88 Mae llawer o gydlynwyr yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am addysg camddefnyddio sylweddau drwy'r Fenter Ysgolion Iach, SCYion yr heddlu a chyfarfodydd ag ymgynghorwyr addysg bersonol a chymdeithasol yr AALl.

89 Mae llawer o ymgynghorwyr addysg bersonol a chymdeithasol yr AALlau a'r holl Gydlynwyr Ysgolion Iach yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i ledaenu gwybodaeth. Mae staff sy'n mynychu'r rhain yn canfod eu bod yn gyfleoedd defnyddiol i gyfnewid syniadau. Mae rhai AALlau wedi rhoi hyfforddiant i gydlynwyr mewn ysgolion cynradd ar y defnydd o 'Amser Cylch' i helpu i wella gallu disgyblion i siarad a meddwl am faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.

90 Yn yr ysgolion hynny lle mae ABCh yn rhan integredig a threfnus iawn o'r cwricwlwm, mae disgyblion yn datblygu hyder wrth feddwl, gwrando a siarad am gamddefnyddio sylweddau. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau effeithiol fel sefydlu rheolau sylfaenol a thechnegau pellhau fel bod modd i ddisgyblion siarad am brofiadau personol go iawn heb enwi unigolion neu sefyllfaoedd yn uniongyrchol. Gall disgyblion yna fyfyrio ar y rhain a thrafod y materion yn fwy rhydd.

91 Lle mae'r addysgu'n cael ei drefnu fel bod addysg camddefnyddio sylweddau yn cael ei gynnal mewn digwyddiad unigol dros ddiwrnod, nid oes digon o amser yn cael ei roi i ddisgyblion drafod pob agwedd ar yr hyn sy'n cael ei addysgu iddynt, i fyfyrio arnynt, ac i ddysgu ohonynt.

92 Yn yr arfer orau, mae addysgu addysg camddefnyddio sylweddau wedi'i seilio ar gyfuniad o gyfraniadau gan asiantaethau allanol a gwersi gwyddoniaeth, addysg grefyddol ac ABCh. Lle mae rhaglenni'n effeithiol, maen nhw'n cael eu cefnogi gan gynlluniau gwaith manwl. Mae athrawon yn gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen yn cael ei chyflwyno.

93 Lle mae ABCh yn cael ei threfnu fel bod athrawon anarbenigol yn dilyn gwersi i fyny sydd wedi cael eu haddysgu gan yr asiantaeth allanol, yn aml nid oes gan yr athrawon hyn ddigon o arbenigedd a hyder. Yn aml bydd y gwersi hyn yn troi'n weithgarwch 'llenwi' heb unrhyw ddiben nac effaith go iawn. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar ansawdd y dysgu. Mewn achosion o'r fath, bydd disgyblion yn aml yn

cwblhau taflenni gwaith, yn hytrach nag yn trafod syniadau. Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o fethiant y dull hwn gan nad ydynt yn gofyn i ddisgyblion am adborth.

94 Mae cyflwyno ac addysgu addysg camddefnyddio sylweddau yn effeithiol hefyd yn cael eu rhwystro mewn rhai ysgolion oherwydd cyfyngiadau ar amser. Gan fod y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei roi i ysgolion er arweiniad yn unig, nid yw gwersi sy'n dilyn gwaith asiantaethau allanol yn cael eu haddysgu'n rheolaidd weithiau. Mewn rhai ysgolion, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn methu rhai gwersi addysg camddefnyddio sylweddau os ydynt yn dewis astudio pynciau arholiad. Yn ogystal, gall gwersi fel y rhai a roddir gan staff cerddoriaeth peripatetig olygu bod rhai disgyblion yn cael eu tynnu allan o wersi addysg bersonol a chymdeithasol.

b) addysg camddefnyddio sylweddau sy'n cael ei haddysgu drwy raglenni 'lleihau niwed' i fodloni anghenion ychwanegol unigolion, grwpiau o bobl ifanc a theuluoedd

95 Mae ymchwil diweddar yn 'Pathways to Problems'[2] a gyhoeddwyd gan Gyngor Ymgynghorol y Llywodraeth ar Gamddefnyddio Cyffuriau wedi dangos bod pobl ifanc yn wynebu'r risg mwyaf o gamddefnyddio sylweddau peryglus yn y cyfnod ar ôl ymadael â'r ysgol, sef yn ystod diwedd eu harddegau a'u hugeiniau cynnar. Mae'n datgan:

'Er gwaethaf y dystiolaeth nad yw nifer fawr o bobl ifanc ond yn dechrau defnyddio tybaco, alcohol a chyffuriau eraill ar ôl iddynt adael yr ysgol, ymddengys mai ychydig iawn sy'n cael ei wneud i roi gwybodaeth neu gefnogaeth yn y sectorau addysg uwch a phellach.'

96 Nid yw rhaglenni addysg yn cael eu teilwra'n ddigonol na'u cydlynu'n ddigon da i fodloni anghenion y grŵp neu'r unigolion hyn i helpu iddynt ddelio â'u lefel bresennol o gamddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, arweiniad 'lleihau niwed' i'r bobl hynny sydd eisoes yn yfed alcohol yn rheolaidd, sy'n goryfed mewn pyliau a/neu'n cymryd sylweddau niweidiol.

97 Mae dau awdurdod – Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd – wedi datblygu rhaglenni ymyrraeth deuluol. Caiff y rhaglenni aml-asiantaethol hyn fel rhaglen 'On Track' ym mlaenau Cwm Rhondda Fach a 'Chryfhau Teuluoedd' yn nwyrain Caerdydd eu hystyried yn fodd o helpu i atal rhai o achosion sylfaenol camddefnyddio sylweddau sy'n cael eu galw'n aml yn 'niwed cudd'.

98 Datgelodd arolwg gan y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau o'r enw 'Hidden Harm'[4] (ACMD 2003), i bob oedolyn sydd â phroblem defnyddio cyffuriau, mae plentyn neu berson ifanc dibynnol o dan 16 oed, h.y. 300,000 o blant neu 2-3% o'r holl blant o dan 16 oed yn y DU. Mae plant pobl sydd â phroblem defnyddio cyffuriau saith gwaith yn fwy tebygol na'u cymheiriaid o ddatblygu problem cyffuriau eu hunain ac mae eu risg o gael niwed drwy wenwyno ar ddamwain, niwed o nodwyddau neu risg o esgeulustod yn cynyddu.

99 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut mae un fenter beilot yn nodi ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu hamlygu i aelodau o'u teuluoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau peryglus fel defnyddio cyffuriau neu ymddygiad troseddol. Ei nod yw gwella eu gallu i osgoi chwarae triwant, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r rhain yn ffactorau sy'n cael eu cysylltu'n aml â chamddefnyddio sylweddau.

Astudiaeth achos: 'On-Track', rhaglen Ymyrryd Teuluol beilot ym mlaenau Cwm Rhondda Fach

Daeth y fenter On-Track ag asiantaethau ynghyd drwy gynnig pecyn o wasanaethau cefnogi i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig fel y rheiny yn ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Dangosodd On-Track sut y gallai bob un o'r gwasanaethau yr oedd eu hangen ar deuluoedd sy'n agored i niwed, fel gweithwyr iechyd proffesiynol, staff gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr magu plant a chyfiawnder ieuenctid proffesiynol, weithio gyda'i gilydd i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc.

Effaith On-Track

Mae effaith uniongyrchol On-Track i'w gweld yn y canlyniadau canlynol:

- gostyngodd cyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol o 207 yn 2001 i 75 yn 2003;
- gostyngodd cyfeiriadau ysgolion at y gwasanaethau cymdeithasol o 88 yn 2002 i saith yn 2004;
- ni fu cynnydd i CAMHS rhwng 2000 a 2003 o'i gymharu â chynnydd ardal o 18%;
- cynnydd yng nghynhwysiant ac ymgysylltiad disgyblion; a
- gwelliant yng nghyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

Mae'r effaith hirdymor yn anos ei barnu. Y gobaith yw y bydd rhaglenni ymyrraeth o'r fath yn parhau i gael eu hariannu er mwyn cryfhau a chynnal cymunedau drwy wneud i blant, pobl ifanc ac oedolion deimlo'n fwy hyderus drwy ostwng cyfraddau chwarae triwant, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol eraill sy'n aml yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Gall y fenter ysgolion bro lle mae'r holl asiantaethau allanol wedi'u lleoli mewn un ysgol mewn ardal leol hefyd helpu i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Rheoli, monitro ac arfarnu addysg camddefnyddio sylweddau

100 Ers cyhoeddi Cylchlythyr 17/02, mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion wedi rheoli eu haddysg camddefnyddio sylweddau drwy bartneriaeth â 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' yn unol â'r argymhellion a roddwyd.

101 Mae'r lleiafrif o ysgolion nad ydynt yn gysylltiedig â 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' yn rheoli eu trefniadau eu hunain. Yn aml, nid yw'r trefniadau hyn yn gynhwysfawr nac wedi'u cydlynu'n dda. Maent yn tueddu i gynnwys materion sy'n cael eu codi mewn gwasanaethau ysgol, neu mewn trafodaethau, mewn ymweliad gan y plismon cymunedol neu drwy gyflwyniad theatr ar sail ad hoc.

102 Mae nifer fechan o gydlynwyr ysgol gynradd yn monitro ac yn arfarnu'r gwaith mewn addysg camddefnyddio sylweddau drwy arsylwi ar waith SCYion yr heddlu, trafodaethau gyda staff ac archwilio gwaith disgyblion. Mae hyn fel rheol yn effeithiol wrth roi gwybod iddynt am y datblygiadau yng ngwybodaeth ac yn nealltwriaeth disgyblion.

103 Yn ei chyhoeddiad yn 2006 'Joining Forces – Drugs: Guidance for Police Working with Schools and Colleges'[3], mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn datgan:

'Ar hyn o bryd mae diffyg arfarnu cefnogaeth yr heddlu i ysgolion ar faterion cyffuriau o ran mesurau effeithiolrwydd fel gwybodaeth am gyffuriau, agweddau ac ymddygiad. Mae'r rhan fwyaf o arfarniadau o gyfraniadau'r heddlu'n ymwneud â materion fel pa mor fodlon y mae ysgolion gyda'r cyfraniadau, monitro nifer y gwersi sy'n cael eu rhoi ac arfarniad o'r dulliau a ddefnyddiwyd.'

104 Mewn adroddiad arall 'Drug Education in Schools: Identifying the Added Value of the Police Service within a Model of Good Practice'[5] a gyhoeddwyd ym 1999, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y gwaith o gyflwyno addysg cyffuriau gan heddweision mewn gwisg heddlu yn cynnig unrhyw fantais arbennig dros ei chyflwyno gan athrawon o ran gohirio neu atal y defnydd o gyffuriau gan bobl ifanc. Pan fydd athrawon yn cael hyfforddiant a chefnogaeth priodol, mae tystiolaeth sylweddol bod rhaglenni sy'n cael eu harwain gan athrawon yn gallu bod yn fwy effeithiol na'r rhai sy'n cael eu cyflwyno yn eu cyfanrwydd gan gyfranwyr allanol.

105 Yn yr arfer orau mewn ysgolion uwchradd, mae cydlynwyr yn monitro ac yn arfarnu cyfraniadau cyfranwyr allanol, yn adolygu cynlluniau gwaith yn rheolaidd ac yn diwygio'r rhain yng ngolau adborth gan ddisgyblion, staff, ac arsylwadau o wersi. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion uwchradd, nid yw monitro ac arfarnu addysg bersonol a chymdeithasol, ac addysg camddefnyddio sylweddau yn benodol, yn ddigon da.

106 Ac eithrio ychydig o raglenni fel y prosiect 'Sort Orau' yn Rhondda Cynon Taf, caiff y rhan fwyaf o fonitro mewn ysgolion, yn unol â gofynion Cylchlythyr 17/02, ei wneud y tu allan i'r rhaglen. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwneud â'r monitro hyn a nifer fechan o awdurdodau addysg lleol sy'n monitro effeithiolrwydd addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion.

107 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr camddefnyddio sylweddau wedi'u lleoli yn adrannau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac fel rheol, cânt eu penodi ar sail rhan-amser i gydlynu addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion. Yr unig eithriad yw Rhondda Cynon Taf, sydd â chydlynydd addysg camddefnyddio sylweddau amser llawn a thri aelod amser llawn arall o'r tîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau.

108 O ganlyniad i'r diffyg monitro ac arfarnu, mae yna ragdybiaeth anghywir bod cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 'Rhaglen Graidd Cyswllt Cymru Gyfan yr Heddlu' yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau timau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau am addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion. Mae cyllid annigonol yn atal y timau hyn rhag cyfrannu at eu rhaglenni hyfforddiant a chefnogaeth eu hunain a rhag arfarnu a monitro addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion yn unol â gofynion Cylchlythyr 17/02.

Adnoddau

109 Mae llawer o'r deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau yn dda. Fodd bynnag, ychydig iawn y mae ysgolion a lleoliadau eraill yn aml yn gwybod am gyhoeddiadau o'r fath neu nid ydynt o fewn eu cyrraedd. Mae adnoddau ar gyfer addysgu am effeithiau smygu yn gyfarwydd iawn, gan eu bod ar gael drwy'r fenter 'Ysgolion Iach' a gwaith eu 22 cydlynydd.

110 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn sicrhau bod eu harferion, eu deunyddiau a'u dulliau o addysgu a dysgu am addysg camddefnyddio sylweddau yn briodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio ffynonellau fel Papur Briffio Drugscope ac Alcohol *'Developing Culturally Sensitive Alcohol Education Resources'*[6] *(2005),* sy'n archwilio'r sensitifrwydd diwylliannol sy'n ymwneud ag addysg am alcohol ac sy'n cynnig dealltwriaeth o'r materion i'w hystyried wrth roi addysg am alcohol neu wrth ddatblygu deunyddiau ar gyfer grwpiau sy'n amrywiol yn ddiwylliannol.

111 Mae rhai AALlau ac ysgolion yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn cadw i fyny â'r wybodaeth a'r adnoddau diweddaraf ar ABCh. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn i athrawon a phobl ifanc sy'n dymuno cael gwybod mwy am beryglon camddefnyddio sylweddau.

112 Mae AALl Abertawe yn cynhyrchu taflen newyddion bersonol a chymdeithasol ar y rhyngrwyd yn http://www.swanseapse.blogspot.com. Mae hon yn cynnwys cyfeiriadau at, ac adolygiadau o, gyhoeddiadau diweddar a newydd, newyddion, gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi, archifau, a chysylltiadau â safleoedd perthnasol eraill fel y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Yn ddiweddar, roedd yn cynnwys canllaw i bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc am y cysylltiadau rhwng canabis ac iechyd meddwl ac mae hwn yn cael ei amlinellu yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth achos: **Y defnydd o flog gan AALl ar y rhyngrwyd i gael gafael ar ymchwil diweddar ar y cyswllt rhwng canabis a phroblemau iechyd meddwl**
http://www.swanseapse.blogspot.com

Arolwg Newydd yn Cysylltu Canabis ac Ymennydd Pobl Ifanc

Mae arolwg diweddar gan Young Minds wedi dangos bod dros 80% o'r 727 o bobl ifanc yn eu harddegau a'u 20au cynnar a gafodd eu holi gan Young Minds wedi rhoi cynnig ar ganabis – y mwyafrif helaeth ohonynt cyn eu bod yn 18 mlwydd oed. Dywedodd tua hanner y bobl ifanc a gafodd eu holi fod canabis wedi achosi sgîl-effeithiau fel paranoia a llewygu. Mae astudiaethau yn dangos bod pobl ifanc sy'n defnyddio canabis yn rheolaidd neu'n drwm o leiaf ddwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu anhwylder meddyliol seicotig erbyn iddynt ddod yn oedolion ifanc na phobl nad ydynt yn smygu. Mae tystiolaeth fod canabis nid yn unig yn gwaethygu problemau iechyd meddwl sydd eisoes yn bodoli, ond gall hefyd sbarduno rhai cyflyrau. Mae'r ddolen isod yn eich tywys i'r daflen:
http://www.youngminds.org.uk/cannabis/cannabisleaflet.pdf

113 Mae'r wefan hefyd yn adolygu cyhoeddiad o'r enw 'Drunk in Charge of a Body'. Mae hwn yn cynnig gwybodaeth i gefnogi pobl ifanc i feddwl yn ofalus am ganlyniadau yfed alcohol ac yn enwedig am oryfed mewn pyliau. Mae'n atgoffa pobl ifanc bod alcohol yn cael effaith arwyddocaol ar y niferoedd o feichiogrwydd di-groeso a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

114 Enghraifft arall o adnodd cyfrifiadurol sy'n delio â'r agweddau hynny sy'n cael eu hesgeuluso o effeithiau iechyd a chymdeithasol camddefnyddio sylweddau yw'r rhaglen 'WASTED!' a ddatblygwyd gan Wasanaeth Safonau Masnachu Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r astudiaeth achos isod yn ehangu ar ei defnyddioldeb.

Astudiaeth achos: WASTED! – Adnodd yn seiliedig ar TGCh ar gyfer addysgu agweddau ar effeithiau iechyd a chymdeithasol camddefnyddio sylweddau

Mae WASTED! yn rhaglen sy'n seiliedig ar TGCh ar effeithiau i iechyd ac effeithiau cymdeithasol camddefnyddio sylweddau sy'n cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth nwyddau a gyfyngir gan oedran. Mae'r adnodd yn edrych ar gamddefnyddio alcohol, tybaco a sylweddau anweddol.

Cafodd WASTED! ei ysgrifennu i gysylltu â'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer cyfnod allweddol 4 yng Nghymru. Mae'r adnodd yn un dwyieithog. Mae'r cynnwys yn berthnasol i gydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion uwchradd, cydlynwyr ysgolion iach, timau camddefnyddio sylweddau, arbenigwyr diogelwch cymunedol, arbenigwyr hybu iechyd, swyddogion cyswllt ysgolion yr heddlu ac ati.

Mae'r rhaglen wedi cael ei chynllunio i'w defnyddio mewn ysgolion a cholegau yng nghyfnod allweddol 4 (14-17 mlwydd oed).

Mae WASTED! yn cynnwys cynlluniau gwersi dwy awr a deunyddiau ategol cysylltiedig gan gynnwys nodiadau manwl i'r athro/hyfforddwr, cardiau datganiad, taflenni tasgau, gwaith cartref, a gwybodaeth am y gwasanaeth Safonau Masnachu.

Mae fideo wedi'i gynnwys o ffug brynu lle mae'r perchennog siop yn gwrthod gwerthu. Mae'r adnodd yn cyrraedd penllanw gyda chwis WASTED! sy'n caniatáu i gyfranogwyr fesur faint o wybodaeth a gawsant.

Mae nifer ddigonol o'r rhaglen wedi cael eu cynhyrchu ar ffurf CD-ROM i'w hanfon at bob ysgol uwchradd yng Nghymru, ynghyd ag unrhyw leoliadau grwpiau ieuenctid sy'n cael eu cefnogi gan Awdurdodau Lleol. Rhoddwyd cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

115 Yn gyffredinol, mae absenoldeb corff cenedlaethol i oruchwylio a chydlynu pob agwedd ar addysg camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cyllido cyhoeddiadau a mentrau ar lefel leol, wedi arwain at ddatblygu a mabwysiadu adnoddau anghydlynus ac ar sail ad hoc.

Atodiad

Rhestr cyfeiriadau

1 *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000.

2 Y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD). *Pathways to Problems. Hazardous use of tobacco, alcohol, and other drugs by young people in the UK and its implications for policy.* Hawlfraint y Goron Medi, 2006.

3 *Joining Forces. Drugs: Guidance for Police Working with Schools and Colleges.* Cymdeithas Prif Swyddogion Yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg a Sgiliau, 2006.

4 Y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau. *Hidden Harm – Responding to the needs of children of problem drug users,* 2003.

5 *Drug Education in Schools: Identifying the Added Value of the Police Service within a Model of Good Practice.* O'Connor, L. Evans, R. a Coggans, N. Cymdeithas Prif Swyddogion Yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a Sefydliad Roehampton, Llundain, 1999.

6 Drugscope/Alcohol Concern, *Developing Culturally Sensitive Alcohol Education Resources: A Briefing Paper for Drug Education Practitioners,* 2005.